# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2008** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL – IECHYD MEDDWL – LLETY CEFNOGOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **YSTYRIED CRYNHOAD O'R ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL, AR GAIS Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod o'r 1af Mehefin 2008 hyd at 31ain Awst 2008 (gweler eitem 5(b)), mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Gyfadran Gofal fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd yn codi o'r adroddiad archwiliad "Iechyd Meddwl - Llety Cefnogol".

1.2 Mae crynhoad o'r adroddiad archwiliad mewnol wedi ei cynnwys yn yr atodiad.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn crynhoad yr adroddiad archwiliad mewnol, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisioes wedi'u cyflwyno i reolwyr y Gyfadran Gofal er gweithrediad.

# IECHYD MEDDWL – LLETY CEFNOGOL
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod taliadau a wneir yn gywir ac yn unol â'r cytundebau gwasanaeth unigol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007/2008.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio cyfran o drafodion perthnasol i'r prif gyflenwyr sy'n rhoi gwasanaeth i clientau Iechyd Meddwl sy'n aros mewn Llety Cefnogol.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 17 o feysydd rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 8 o'r meysydd hyn, gyda 3 o'r meysydd dim yn berthnasol bellach. Mae'r prif ddarganfyddiadau fel a ganlyn:

- Nid oes cytundeb yn ei le rhwng y Cyngor ac un o'r prif gyflenwyr.
- Disgwylir fod y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn cynnal adolygiad o ansawdd y gwasanaeth a dderbynir gan y cyflenwr. Fodd bynnag nid oedd tystiolaeth fod hyn yn cymryd lle. Ymhellach, fel canlyniad i hyn ni anfonir adroddiadau monitro i'r Uned Contractau
- O fewn y broses ardystio anfonebau mae swyddogion yn cymryd yn ganiataol bod yr unigolion wedi derbyn y gwasanaeth. Nid oes portffolio ariannol ar gyfer yr unigolion fel sydd ar gyfer unigolion Llety Cefnogol Anabledd Dysgu, sydd yn creu anghysondeb ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r portffolio ariannol yma yn ffynhonnell y gellir ei defnyddio er mwyn gwirio'r anfonebau.
- Mae peth pryder, yn arbennig o safbwynt ardal Dwyfor, ynglyn â diffyg posib mewn gwahanu dyletswyddau wrth godi archebion a thalu anfonebau.
- Disgwylir fod unrhyw glient sydd ddim yn berthnasol i Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn derbyn asesiad gan yr Adain Polisi Codi Tal. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth mai dim ond un client sydd ddim yn berthnasol i "Adran 117", ac nid yw wedi derbyn asesiad.
- Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn derbyn adroddiadau gwariant / incwm yn chwarterol gan y Cyfrifydd. Gan fod tanwariant ar y Cynllun Preswyl wedi ariannu'r gorwariant ar y gyllideb Llety Cefnogol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, nid yw cyllideb Llety Cefnogol felly yn adlewyrchu'r gwir gost ddisgwyliedig am y flwyddyn ariannol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn drefn o weinyddu taliadau Llety Cefnogol, gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod yna Gytundebau lefel gwasanaeth gyda thelerau cyson ar gyfer y cyflenwyr perthnasol**
- **Dylid sicrhau fod adolygiad ysgrifenedig rheolaidd o bob gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn**
- **Dylid sicrhau fod copi o bob adolygiad yn cael ei yrru i'r Uned Contractau**
- **Dylid creu portffolio ariannol ar gyfer pob unigolyn er mwyn sicrhau fod yr anfonebau a dderbyniwyd yn gywir ag yn unol â'r hyn gytunwyd.**
- **Dylid sicrhau fod gwahaniad priodol mewn dyletswyddau rhwng archebu ac ardystio taliadau**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw glient sydd ddim yn ddarostyngedig i Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn derbyn asesiad polisi codi tal**
- **Dylid sicrhau fod y gyllideb yn adlewyrchu'r gost ddisgwyliedig am y flwyddyn**